



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

POLISI A STRATEGAETH

# Profi Orlhain Diogelu

Ein strategaeth ar gyfer profi'r cyhoedd yn gyffredinol ac olrhain lledaeniad y coronafeirws yng Nghrymu.

Cyhoeddwyd gyntaf: 13 Mai 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Mehefin 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Rhagair

---

Cyflwyniad

---

Trosolwg

---

Profi

---

Olrhain

---

Diogelu

---

Beth nesaf

---

## Rhagair y Gweinidog

**Mae “Arwain Cymru allan o’r pandemig coronafeirws”, ein fframwaith ar gyfer adferiad** wedi’i seilio ar dri philer:

- y mesurau a’r dystiolaeth y byddwn yn eu defnyddio i farnu’r lefelau haint presennol a chyfraddau trosglwyddo coronafeirws yng Nghymru
- yr egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i ymchwilio i’r dulliau arfaethedig o lacio’r cyfyngiadau presennol
- gwella ein system i gadw gwyliadwriaeth ac ymateb i iechyd y cyhoedd, i’n galluogi i atal heintiadau a thracio’r feirws wrth lacio’r cyfyngiadau, a sut y bydd y system hon yn diogelu iechyd pobl

Yn y ddogfen hon, rydym yn egluro’n fanylach beth y byddwn yn ei wneud o dan y trydydd piler.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Nod ein strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu yw gwella gwylidwriaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau yn effeithiol ac yn helaeth a chefnogi pobl i hunanynysu pan fo angen. Bydd ein camau wedi'u seilio ar brofiad rhyngwladol a byddwn yn cyfathrebu'n gyson â'r cyhoedd drwy'r amser.

Mae'r cyfyngiadau presennol yn gofyn llawer gan bobl. Maent yn effeithio ar bob un ohonom, ein teuluoedd, ein swyddi, ein lles. Y cam nesaf yw dechrau llacio'r cyfyngiadau, gan ddod o hyd i ffordd i bobl Cymru fyw a gweithio ochr yn ochr â'r feirws, a rheoli ei ledaeniad ar yr un pryd. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio'n raddol, bydd angen i bob un ohonom gymryd camau i'n diogelu ein hunain, ein teuluoedd a'n cymunedau er mwyn cyfyngu ar ledaeniad y clefyd yn llwyddiannus.

Hyd yma, mae ein strategaeth brofi wedi canolbwyntio ar bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal a gweithwyr hanfodol symptomatig. Yn y cam nesaf, bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn golygu gofyn i bobl adrodd ar symptomau, profi unrhyw un yn y gymuned sydd â symptomau COVID-19 ac olrhain pawb sydd wedi dod i gysylltiad agos â nhw. Bydd y rheini yn cael eu cynghori i hunanynysu er mwyn atal lledaeniad pellach ymysg eu teulu, eu ffrindiau a'r gymuned. Mae olrhain cysylltiadau yn ddull iechyd y cyhoedd hirsefydledig o reoli lledaeniad llawer o heintiadau ac mae wedi bod yn effeithiol i reoli'r coronafeirws mewn gwledydd eraill. Bydd ein dull gweithredu yn dwyn ynghyd ac yn datblygu'r arbenigedd olrhain cysylltiadau sydd eisoes yn ein byrddau iechyd lleol ac yn enwedig ein hawdurdodau lleol i roi'r strategaeth hon ar waith ar lawr gwlad.

Nid yw'n hawdd gofyn i bobl ynysu eu hunain yn y ffordd hon, ond mae'n hanfodol i barhau i achub bywydau a lleihau'r gyfradd drosglwyddo. Mae'n bosibl y bydd Profi, Olrhain, Diogelu ar waith am beth amser, hyd nes y mae brechlyn wedi'i ddatblygu, rhywbeth a all fod o leiaf 12 mis i ffwrdd. Gan nad yw'n hawdd a chan ein bod yn gofyn i bobl ddiogelu eraill, mae'n hollbwysig ein bod yn cefnogi pobl i wneud y peth cywir, yn enwedig pan fyddwn efallai'n gofyn iddynt hunanynysu sawl gwaith.

Pobl Cymru yw ein partneriaid pwysicaf. Dim ond drwy eu parodrwydd i wneud y peth cywir – adrodd ar eu symptomau, nodi eu cysylltiadau a gwrando ar gyngor i hunanynysu – y gallwn ni dorri'r gadwyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth i ddarparu un o'r ymyriadau iechyd y cyhoedd mwyaf mewn cenhedlaeth.

## Cyflwyniad

Mae disgwyl i COVID-19 barhau i gael ei drosglwyddo hyd nes y mae brechlyn ar gael neu y mae digon o'r boblogaeth wedi datblygu imiwnedd i atal ei ledaeniad. Mae'r cyfyngiadau wedi cael effaith ddofn ar fywydau pob un ohonom ledled Cymru. Maent hefyd wedi helpu i gyfrannu at leihau'r lefelau haint. Mae'r feirws yn parhau'n fygythiad difrifol iawn inni i gyd ac felly rhaid inni gynllunio ffordd ymlaen sy'n helpu i osgoi'r perygl o ail don fawr o heintiadau.

Rydym bob amser wedi seilio ein camau ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael, gwylidwriaeth iechyd a'r hyn sydd wedi'i ddysgu'n rhyngwladol. Byddwn yn parhau i wneud hynny.

Mae olrhain cysylltiadau yn cael ei ddefnyddio mewn gwledydd ledled y byd i atal lledaeniad y feirws yn y gymuned drwy dorri'r cyswllt yn ei drosglwyddiad. Mae'r broses olrhain cysylltiadau yn dechrau gyda hunan-gofnodi symptomau, ac yna profi achosion a amheuir, olrhain cysylltiadau'r rhai sydd wedi profi'n positif ac yna diogelu ein teuluoedd, ffrindiau a'n cymunedau drwy hunanynysu.

Yng Nghymru, mae gennym system iechyd y cyhoedd gadarn a ddarperir gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol sydd â chryn arbenigedd mewn olrhain cysylltiadau. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth inni symud at y cam nesaf. Ar gyfer y cam nesaf hwnnw, mae angen inni olrhain cysylltiadau ar raddfa na welwyd mo'i thebyg erioed o'r blaen.

Dyna pam y bydd angen gweithio mewn partneriaeth wrth roi Profi, Olrhain, Diogelu ar waith: gan gyfuno ein hymdrechion fel y gallwn ni, gyda'n gilydd, leihau trosglwyddiad y feirws. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector, y byd academiaidd, busnesau lleol a phartneriaid eraill i gyd ran i'w chwarae, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn inni iacio'r cyfyngiadau yn llwyddiannus, a rheoli lledaeniad yr haint ar yr un pryd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Rolau a Chyfrifoldebau

**Unigolion** – dilyn y cyngor iechyd i'r cyhoedd, golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol, adrodd ar symptomau a hunanynysu pan fo angen.

**Llywodraeth Cymru** – darparu cyfeiriad strategol, goruchwylio, pennu blaenoriaethau a darparu adnoddau i alluogi profi, olrhain, diogelu.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru** – ein corff Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol arbenigol sy'n darparu arweinyddiaeth a chynghor arbenigol ar ddulliau gweithredu iechyd y cyhoedd. Bydd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o olrhain cysylltiadau, cynghori ar samplo a phrofi, dadansoddi profion mewn labordy, gwyliadwriaeth iechyd a darparu cyngor diogelu iechyd a dadansoddiad arbenigol o ledaeniad y feirws yn ein cymunedau drwy ystod o ddangosyddion gwyliadwriaeth iechyd.

**Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol** – darparu cyfoeth o arbenigedd olrhain cysylltiadau a chydweithio i ddarparu timau olrhain cysylltiadau lleol a fydd yn cael eu cydlynu'n rhanbarthol – cyfuniad o staff clinigol ac anghlinigol a all helpu'r rhai sydd â symptomau neu sydd wedi cael prawf positif, a'u cysylltiadau agos, i aros yn ddiogel. Bydd y gwaith hwn yn mynd ochr yn ochr â'u rôl bresennol o ran darparu cyfleusterau profi ac ymatebion iechyd amgylcheddol a chyhoeddus i achosion a chlystyrau lleol, neu gamau ataliol mewn ardaloedd sydd â risg uchel.

Mae'n hanfodol bod pawb yng Nghymru yn gwybod ac yn deall beth yw'r symptomau i fod yn wylidwrus ohonynt a beth i'w wneud os ydyn nhw, eu teulu neu eu ffrindiau yn eu datblygu. Rhaid i bawb fod yn barod i wneud y peth cywir a'u diogelu eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy hunanynysu.

Felly, wrth inni fynd ati i Brofi, Olrhain, Diogelu bydd tair egwyddor allweddol yn ein harwain:

- Bydd Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru yn adlewyrchu'r dystiolaeth wyddonol, a'n nod fydd gweithredu yn yr un modd ledled y DU, gan weithredu'n wahanol dim ond pan fo ein cyd-destun penodol yn gofyn am hynny, a chyda chefnogaeth y dystiolaeth. Mae hyn yn bwysig oherwydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mae angen ei gwneud yn glir i'r cyhoedd yng Nghymru beth a ddisgwylir ganddynt a beth yw eu rôl o ran eu diogelu eu hunain ac eraill.

- Byddwn yn rhoi Profi, Olrhain, Diogelu ar waith mewn partneriaeth, yn gyson â'n gwerthoedd a'n hegwyddorion a chan adlewyrchu'r angen i bawb chwarae eu rhan i frwydro yn erbyn y feirws.
- Bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn cefnogi dinasyddion i gyfrannu cymaint ag y gallant at eu diogelu eu hunain ac eraill i annog ymddygiad cadarnhaol, gan ei gwneud yn haws i bobl chwarae eu rhan yn y broses olrhain cysylltiadau a chyfyngu ar ledaeniad y feirws a diogelu pobl agored i niwed.

## Profi, Olrhain, Diogelu - Trosolwg

Bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy:

- nodi pobl sydd â symptomau sy'n gyson â COVID-19, a'u galluogi i gael eu profi wrth iddynt ynysu eu hunain oddi wrth eu teulu ehangach, eu ffrindiau a'u cymuned
- olrhain yr unigolion hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r person sydd wedi profi'n bositif ar unrhyw achlysur yn ystod y cyfnod hyd at ddau ddiwrnod cyn iddynt brofi symptomau, gan ofyn iddynt gymryd rhagofalon a hunanyysu (am 10 diwrnod)
- darparu cyngor ac arweiniad, yn enwedig pan fo'r unigolyn sydd wedi profi'n bositif neu ei gysylltiadau yn agored i niwed neu mewn mwy o berygl
- os yw'r unigolyn yn cael prawf negatif ac nad yw'r symptomau o ganlyniad i'r coronafeirws, sicrhau y gall unigolion a'u cysylltiadau fynd yn ôl i'w trefn arferol cyn gynted â phosibl

I alluogi hyn, mae angen y canlynol:

- unigolion symptomatig – hyd yn oed pan fo'r symptomau hynny'n ysgafn – i adrodd ar eu symptomau ar unwaith ac, ar yr un pryd, hunanyysu a rhoi gwybod i'w ffrindiau a'u teulu y gall fod ganddynt COVID-19
- mynediad hawdd a chyflym at brofion, fel y gall pawb sydd angen prawf gael un – gallai hyn fod drwy ganolfan profi torfol, uned brofi gymunedol, uned brofi symudol neu ei ddanfôn i'r cartref, lle y gallant gynnal y prawf eu hunain
- unigolion i gydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb i helpu i ddiogelu eraill a darparu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwybodaeth fel y gall y bobl y maent wedi bod mewn cysylltiad â nhw gael cyngor ar ba gamau y bydd angen iddynt eu cymryd i'w diogelu eu hunain a'u teuluoedd

- y bobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â nhw i hunanyysu pan ofynnir iddynt wneud, hyd yn oed os yw hynny'n digwydd sawl gwaith
- y cymorth cywir i'r rhai sydd ei angen wrth iddynt hunanyysu

Mae gan COVID-19 rai nodweddion penodol sy'n gwneud pob dull o olrhain cysylltiadau gan gynnwys Profi, Olrhain, Diogelu yn heriol i'w gweithredu:

- Mae symptomau COVID-19 yn debyg iawn i symptomau amryw o anhwylderau anadlol eraill, ac yn enwedig wrth inni symud i'r hydref a'r gaeaf, rydym yn debygol o weld mwy o bobl yn arddangos symptomau posibl ond sy'n cael prawf negatif. Golyga hyn y gall fod llawer o bobl (y bobl â symptomau a'r bobl sydd mewn cysylltiad â nhw) yn ynysu er nad oes ganddynt y feirws. Bydd angen inni fonitro hyn yn agos ac addasu ein dull gweithredu os oes angen.
- Ni fydd gan rai pobl unrhyw symptomau er bod ganddynt COVID-19, a bydd rhai pobl yn heintus yn y cyfnod cyn iddynt arddangos unrhyw symptomau. Felly ni allwn ddibynnu ar Brofi, Olrhain, Diogelu yn unig i reoli'r epidemig. Mae mesurau ehangach o ran ymddygiad ac iechyd y cyhoedd yn parhau i fod yn hanfodol.
- Rydym yn anelu at fod â'r gallu i olrhain ledled Cymru erbyn 31 Mai.

## Profi

Mae sawl diben i brofi ar gyfer COVID-19 yn y cam nesaf. Mae'n hanfodol ar gyfer y canlynol:

- rhoi diagnosis o'r clefyd i helpu gyda thriniaeth a gofal
- cadw gwyliadwriaeth ar iechyd y boblogaeth fel y gallwn ddeall lledaeniad y clefyd a chanfod clystyrau a manau problemus o ran yr haint
- olrhain cysylltiadau, i reoli lledaeniad y clefyd
- parhad busnes, galluogi gweithwyr allweddol i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflymach ac yn ddiogel
- gwybod pwy sydd wedi cael yr haint yn y gorffennol, pan fydd prawf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## gwrthgyrff ar gael

Mae graddfa'r gallu i brofi sy'n angenrheidiol yng Nghymru, ac ar draws y DU, i gefnogi'r dibenion hyn a Phrofi, Orlhain a Diogelu yn benodol, heb ei chynsail.

Rydym wedi ehangu ein gallu i brofi yn sylweddol yng Nghymru, gyda labordai yn awr yn gallu prosesu dros 5000 o brofion y dydd, a chanolfannau profi bellach ar agor ar hyd a lled y wlad. Byddwn yn dal i gynyddu'r gallu hwn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, gan gyrraedd cymaint â 10,000 o brofion y dydd o bosib, a'n galluogi ni i brofi mwy o bobl sydd yn yr ysbyty neu mewn lleoliadau gofal a'r bobl hynny sy'n gweithio yn y sectorau hyn ac mewn gwasanaethau hanfodol eraill. Wrth inni symud i brofi'r boblogaeth ar lefel dorfol i gefnogi'r dull o olrhain cysylltiadau, bydd modd inni gynyddu'r gallu i brofi ymhellach drwy ddefnyddio'r rhaglen brofi sy'n weithredol ar draws y DU, gyda systemau ar waith i sicrhau bod y data yn cael eu rheoli yn briodol. Mantais y gallu ychwanegol hwn hefyd yw y gellir danfon profion yn syth i gartrefi pobl er mwyn iddynt gynnal y prawf eu hunain.

Gall olrhain cysylltiadau ynghyd â'r dibenion eraill y mae profion yn eu cefnogi olygu bod angen cymaint â 20,000 o brofion yn ddyddiol. Bydd hynny'n cael ei gyflawni drwy gyfuniad o brofion o Gymru a chyfran o'r rhaglen brofi a arweinir gan y DU. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar ledaeniad y feirws, nifer yr achosion o symptomau a'r dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio profion i atal haint. Byddwn yn parhau i adolygu'r dystiolaeth ac addasu ein hanghenion bras yn unol â hynny.

Bydd angen i'n gallu i brofi dyfu dros amser er mwyn llwyddo i gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Bydd y gwaith gwyliadwriaeth iechyd y bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud i fonitro'r achosion o'r clefyd yn hanfodol i sicrhau y gallwn ragweld yr anghenion yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Byddwn yn parhau i fodelu lefelau'r profion angenrheidiol a datblygu ein seilwaith yn unol â hynny. Mae hyn yn cynnwys y gwaith i ddatblygu prawf gwrthgyrff. Mae deall pwy sydd wedi'u heintio ac a ydynt wedi datblygu imiwnedd i COVID-19 yn hanfodol i reoli'r pandemig hwn yn llwyddiannus, ac i adfer wedi hynny. Mae hefyd yn cael effaith ar gynllunio a gweithredu mesurau atal, gwneud y gorau o gapasiti gweithlu'r GIG, ac o bosib cefnogi camau i roi'r gorau i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



# Olrhain

Mae olrhain cysylltiadau yn ddull dibynadwy o reoli lledaeniad clefydau heintus. Bydd hefyd yn ein helpu i ddeall sut y mae'r clefyd yn cael ei basio o berson i berson, ac atal hynny rhag digwydd.

Gwnaethom ddefnyddio'r dull olrhain cysylltiadau yn ystod cam 'cyfyngu' ein hymateb cychwynnol i COVID-19. Yr her yn awr yw cynyddu ein gallu i olrhain cysylltiadau i lefelau nas gwelwyd o'r blaen, er mwyn gallu olrhain degau o filoedd o gysylltiadau newydd bob dydd, o bosib, a hynny yn gyflym. Byddwn yn defnyddio gwaith partneriaeth cryf a champau ar y cyd i gyflawni hyn yng Nghymru.

Ar lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ac yn rhoi cyfarwyddyd strategol, gan gynnwys datblygu cyngor gwyddonol i lywio ein hymateb. Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn cydlynu yn genedlaethol, yn rhoi cyngor arbenigol a chymorth gyda dulliau a blaenoriaethau olrhain cysylltiadau a fydd yn sicrhau bod gennym safonau cadarn ar gyfer Cymru gyfan a chanllawiau cynhwysfawr ar gyfer sut i olrhain cysylltiadau.

Nid yw'r risg o drosglwyddiadau yr un fath ar gyfer pob cyswllt, gweithgaredd neu amgylchedd. Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru drwy eu gwaith i roi system gwyliadwriaeth iechyd gadarn ar waith yn canfod pa gysylltiadau a lleoliadau sy'n arwain at y risg uchaf o drosglwyddo'r haint, gan helpu i olrhain cysylltiadau uniongyrchol ac ymdrechion i brofi.

Bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn sicrhau bod un platfform digidol ar gyfer olrhain cysylltiadau ar draws Cymru. Bydd hyn yn galluogi pobl i roi gwybod am eu cysylltiadau mewn modd syml a chyflym, gan gefnogi'r timau olrhain cysylltiadau i weithio'n effeithiol, a darparu gwybodaeth amser real ar draws Cymru gyfan ar leoliad y clefyd, pa mor gyflym y mae'n lledaenu a lle mae'r manau problemus o ran yr haint.

Bydd y gwaith o olrhain cysylltiadau'n cael ei wneud yn rhanbarthol, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddefnyddio timau olrhain cysylltiadau sy'n deall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

y cyd-destun lleol. Bydd hyn yn helpu i gyflymu'r gwaith o olrhain cysylltiadau, a chanfod tueddiadau newydd neu glystyrau lleol o'r clefyd cyn gynted â phosibl.

Ar y cyd â'r gwaith hwn, bydd ap digidol ar gyfer y DU gyfan y gall pobl ei weithredu ar ffonau clyfar i ddarparu platfform digidol cyfleus i'w cefnogi i ddiogelu eu hunain ac eraill rhag y feirws ac atal achosion newydd rhag brigo. Bydd yn rhoi gwybod i unigolion a ydynt wedi bod yn agos at rywun sydd bellach â symptomau coronafeirws, yn eu cysylltu â'r canllawiau diweddaraf ar goronafeirws sy'n berthnasol i'w sefyllfa, a bydd yn gadael iddynt wneud cais am brawf os oes ganddynt symptomau coronafeirws.

Bydd olrhain cysylltiadau yn rhan hanfodol o'n dull Profi, Olrhain, Diogelu. Bydd ein cynllun treialu olrhain cysylltiadau yn dechrau yn fuan iawn gan ein galluogi i ddysgu ac addasu, a bydd yn datblygu yn gyflym. Bydd graddfa olrhain cysylltiadau yn tyfu dros amser a bydd hefyd angen bod yn hyblyg er mwyn ymateb i ledaeniad y clefyd a nifer yr achosion o symptomau. Er enghraifft, wrth i'r hydref a'r gaeaf gyrraedd, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn dangos symptomau. Gan weithio, i ddechrau, gyda'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol, ein nod yw y bydd gennym weithlu o oddeutu 1000 o aelodau o staff ar waith. Byddwn wedyn yn tyfu ein gweithlu ac yn addasu ein dull gweithredu yn unol â'r amgylchiadau. Bydd angen cynnal y gwaith olrhain cysylltiadau ar lefel sylweddol, o bosib am y flwyddyn nesaf neu nes bydd brechlyn ar gael, gan ymateb i'r dystiolaeth ddiweddaraf ynglŷn â pha mor gyffredin yw'r clefyd ar draws Cymru, a pha mor gyflym y mae'n lledaenu.

Mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan wrth adrodd ar symptomau a chadw at y cyngor i hunanynysu a diogelu eraill.

## Diogelu

Nid olrhain cysylltiadau yw'r diben ynddo'i hun. Mae'n galluogi unigolion i gymryd y camau cywir i ddiogelu eu teuluoedd, eu cyfeillion a'u cymunedau drwy hunanynysu. Hunanynysu yw cadw pellter oddi wrth aelodau eraill y teulu cyhyd ag y bo modd, peidio â gadael y tŷ i wneud ymarfer corff a pheidio â mynd i'r siop i brynu bwyd neu eitemau eraill hanfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae olrhain cysylltiadau yn golygu efallai y bydd gofyn i bobl hunanynysu sawl tro. Po fwyaf y daw pobl i gysylltiad ag eraill, y mwyaf tebygol ydyw y bydd angen iddynt hunanynysu. Rydym yn cydnabod y straen y gall hyn ei roi ar unigolion a'u teuluoedd os ydynt yn gorfod hunanynysu ar sawl achlysur. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i bob un ohonom baratoi ar ei gyfer. Os ydym yn dymuno cynnal y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn ystod y cyfyngiadau ar symud, ac os ydym yn dymuno cadw'r gyfradd drosglwyddiadau R0 i lawr, yna mae ynysu i dorri'r cyswllt mewn trosglwyddiadau yn hanfodol.

Ar draws Cymru mae teuluoedd a chyfeillion; cymunedau, sefydliadau trydydd sector a gwirfoddolwyr; ac awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd wedi bod yn rhoi cymorth sydd wedi galluogi pobl i ymdopi yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud.

Bydd angen i bob un ohonom yn awr gydweithio i gefnogi pobl i hunanynysu. Bydd angen cymorth ar rai pobl i gael bwyd neu feddyginiaeth tra maent yn hunanynysu. Bydd rhai pobl angen gofal parhaus neu gymorth gyda'u hiechyd meddwl neu gymorth gydag anghenion corfforol.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ganfod y cymorth ymarferol y bydd rhai pobl ei angen pan maent yn hunanynysu, pan nad ydynt yn gallu dibynnu ar eu rhwydweithiau i helpu, a chytuno ar sut i ddarparu hyn.

Byddwn hefyd yn siarad gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y gallant wneud yn siŵr bod pobl yn gallu hunanynysu drwy roi darpariaeth briodol o ran hawliau cyflogaeth i unigolion a'r system nawdd cymdeithasol.

## Beth nesaf

Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mae'n rhaid inni ddod o hyd i ffordd y gall pobl Cymru fyw a gweithio ochr yn ochr â'r feirws, gan reoli ei ledaeniad. Bydd angen i bob un ohonom gymryd camau i ddiogelu ein hunain, ein teuluoedd a'n cymunedau os ydym ni am lwyddo i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd. I achub bywydau mae'n rhaid i bob un ohonom brofi, olrhain a diogelu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Profi Olrhain Diogelu](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).